



Y Cyd-destun Llenyddol

Huw Meirion Edwards

Pe bai Dafydd ap Gwilym wedi ei eni ychydig ddegawdau ynghynt buasai ei ganu yn wahanol iawn. Daeth i'r byd o fewn cenhedlaeth i drechu'r olaf o'r tywysogion annibynnol Cymreig, ac yn sgil hynny ddileu prif foddion cynhaliaeth y gyfundrefn farddol fel y câi ei diffinio yn Nghyfraith Hywel Dda. Dosbarth yr uchelwyr tiriog, ac nid yr hen dywysogaeth, fyddai pennaf noddwyr y beirdd bellach. Er trymed yr ergyd fe lwyddodd y beirdd i ymaddasu i'r sefyllfa wleidyddol newydd, ac fel y dengys y casgliad o awdlau cywrain, urddasol a geir yn Llyfr Coch Hergest yr oedd galw mawr o hyd ymhlith noddwyr y bedwaredd ganrif ar ddeg am foliant yn yr hen ddull. 'Roedd Dafydd ap Gwilym yn gymaint meistr â neb ar y math hwnnw o ganu. Ond tyfodd galw hefyd am ganu mwy amrywiol a llai ffurfiol na'r hyn a darddodd o ddefodaeth yr hen lysoedd brenhinol, wrth i rai o blith y dosbarth uchelwrol fynnu diddanwch soffistigedig yn ogystal â mawl yn nhraddodiad Taliesin. Yn ail chwarter y ganrif datblygodd mesur newydd, mwy ystwyth na mesurau'r awdl a'r englyn, yn gyfrwng i ganu ysgafnach a mwy goddrychol ei naws. Priodwyd yr hen idiom farddol ag arddull fwy sgrysiol, ac yng nghywyddau Dafydd yn anad yr un o'i gyfoeswyr disodlwyd yr hen wrthrychedd gan bersonoliaeth gref sy'n allweddol i apêl y farddoniaeth hyd heddiw.

Daeth amryw o amgylchiadau ac o ddylanwadau ynghyd: potensial newydd y sefyllfa wleidyddol a chymdeithasol oedd ohoni; gwaddol cyfoethog Beirdd y Tywysogion a'r beirdd hynny a ganai yn y cyfnod wedi'r goncwest; gwaddol mwy iseldras clerwyr cyffredin y gellir tybio iddynt awgrymu i Ddafydd nid yn unig batrwm mydryddol y cywydd ond hefyd beth o ddeunydd ei ganu; a dylanwadau a darddai o ganu serch cyfandir Ewrop, drwy ba gyfryngau bynnag y daethant. Rhaid cofio hefyd am nawdd uchelwr diwylliedig fel Ieuan Llwyd o Lyn Aeron, yr oedd ei deulu'n rhan o'r bwrlwm llenyddol cyffrous a fodolai yng Ngheredigion yn nauddegau a thridegau'r ganrif pan oedd Dafydd ar ei brifiant. Pwysicach na phob dylanwad yw dychymyg ac egni creadigol cynhenid Dafydd, a'i galluogodd i drawsnewid yr hyn a glywodd ac a ddarllenodd ym mhair ei weledigaeth ef ei hun. Nid ef oedd yr unig fardd ifanc yn y cyfnod hwnnw i arbofi ar fesur y cywydd. Ymhlith y Cywyddwyr cynnar eraill ceid Gruffudd Gryg o Fôn, Madog Benfras o Faelor, Gruffudd ab Adda ap Dafydd o Bowys, Iorwerth ab y Cyriog o Fôn, Llywelyn Goch ap Meurig Hen o Feirionnydd ac

Iolo Goch o Ddyffryn Clwyd (y ddau olaf ryw gymaint yn iau).¹ Daeth y mesur newydd, felly, yn boblogaidd ledled Cymru, a chanodd rhai o'r beirdd hyn gywyddau nodedig iawn, yn enwedig Llywelyn Goch, awdur y farwnad enwog i Leucu Llwyd,² ac Iolo Goch, prif arloeswr y cywydd mawl ffurfiol yn ail hanner y ganrif. Ond y mae pob tystiolaeth yn awgrymu mai Dafydd oedd yr athrylith fwyaf ymhlith ei gyfoedion, a chadarnhawyd ei arbenigrwydd gan gyfnodau diweddarach.

Un hynodrwydd a berthyn i'w ganu yw ehangder ei *repertoire*. Fel bardd serch y synnir amdano yn bennaf, gan iddo droi'r hyn a ystyrir yn ganu achlysurol gynt yn brif bwnc ei awen. Mae pedair o bob pump, yn fras, o'r cerddi a ystyrir yn waith dilys Dafydd yn ymwneud â serch a'r byd naturiol, ac mae ystod y sefyllfaoedd a'r confensiynau a'r cyweiriau sydd ynddynt yn amlygu dyfeisgarwch anghyffredin. Perthyn gweddill ei ganu i *genres* mwy defodol y canu crefyddol, mawl a marwnad, ymryson a dychan. Wrth ganu ar y pynciau mwyaf traddodiadol ei duedd ef, fel ei gyfoeswyr, oedd glynu'n bennaf wrth wedduster hen fesurau Beirdd y Tywysogion. Mewn cyfres faith o englynion y molodd rinweddau Crog Caerfyrddin (1), cerdd y gellir ei chymharu ag awdl orchestol ddiweddarach Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd i'r Grog o Gaer (Chester).³ Mesur yr englyn a ddewisodd Dafydd hefyd i fydryddu'n ddeheuig gynnwys gweddi Ladin yr *Anima Christi* (2), ac awdl ddefosiynol yw'r gerdd ansicr ei hawduraeth i Grist (152). Chwe chwpled o gywydd, fodd bynnag, yw'r gerdd i'r Drindod (3), lle mae'r mesur yn gweddu i uniongyrchedd y mynegiant – arwydd, efallai, o swyddogaeth ddefosiynol ymarferol y gerdd. Ar fesur cywydd hefyd y canodd Dafydd ei gerdd grefyddol fwyaf anghyffredin, yn disgrifio paentiad o Grist a'i ddeuddeg apostol a welodd mewn mynachlog neu eglwys blwyf (4). Cerddi yw'r rhain sy'n lleisio ffydd y bardd mewn modd mwy uniongred na'r hyn a geir yn nadleuon Dafydd â'r brodyr bregethwyr (147-50), ac yn nelweddaeth grefyddol feiddgar cywydd serch fel 'Offeren y Llwyn' (39).

Gan y cawsai'r bardd ifanc ei hyfforddi'n drwyadl yng ngofynion y canu mawl a'r canu crefyddol traddodiadol (efallai yn llys ei ewythr Llywelyn ap Gwilym, 'Llyfr dwned Dyfed' (5.1), yn Emlyn), gellid tybio bod rhai o'i gerddi ar yr hen fesurau ymhlith ei weithiau cynharaf. Ychwanegwyd yr englynion i'r Grog, gan Ddafydd ei hun o bosibl, at gerddi trydedd haen Llawysgrif Hendregadredd a gofnodwyd tua'r 1330au pan oedd y llyfr ym meddiant ei noddwr Ieuan Llwyd yng Nglyn Aeron. Un posibilrwydd yw i'r gerdd gael ei chomisiynu gan berthynas i Ddafydd, Rhys ap Gruffudd, pan oedd hwnnw'n gwnstabl castell Caerfyrddin yn 1335, a hynny er mwyn dyrchafu bri'r dref.⁴ Ar y llaw arall, yn nes at ddiwedd ei yrfa farddol dybiedig y canodd Dafydd ei farwnad i'w ewythr (6) ar fesurau'r englyn, yn sgil ei lofruddio tua 1346. Er mai'r cywydd oedd ei hoff gyfrwng, felly, fe ddaliodd i amrywio'i fesurau yn ôl yr achlysur a'r pwnc dan sylw. Gan mai'r hen fesurau oedd priod gyfrwng y canu dychan, nid syndod mai awdl a ganodd Dafydd i ddifriö'r clerwr Rhys Meigen (31), yn null y corff nodedig o awdlau ac englynion dychan o'r bedwaredd ganrif ar ddeg a

¹ Ar y Cywyddwyr cynnar gw. Rachel Bromwich, 'The Earlier Cywyddwyr, Dafydd ap Gwilym's Contemporaries', yn APDG 152-71; Dafydd Johnston, *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llennyddiaeth Gymraeg 1300-1525* (Caerdydd, 2005), 146-94.

² GLIGMH 12.

³ GGM ii, 1.

⁴ Gw. nodyn cefndir rhif 1.

ddiogelwyd yn y Llyfr Coch ochr yn ochr â'r canu mwy swyddogol.⁵ Nod amgen y *genre* yw troi delfrydiaeth gyfarwydd y traddodiad moliant wyneb i waered, ac wrth wawdio balchder ymffrostgar a thaeogrwydd a glythineb Rhys Meigen mewn iaith drosiadol liwgar, dengys Dafydd ei fod wedi ymdrwytho yng ngofynion gwahanol iawn y math hwnnw o ganu. Perthyn peth o ganu dychan y Llyfr Coch, fel cyfresi englynion gwawdlyd Casnodyn a Thrahaearn Brydydd Mawr i'w gilydd,⁶ yn nes at ddechrau'r ganrif, ac er na chofnodwyd yr un ddychangerdd ddiledryw o gyfnod cynharach, awgryma natur gonfensiynol y canu fod y beirdd hyn i gyd yn dwyn maeth o gynhysgaeth farddol hŷn a ddatblygodd fel gwrthbwynt i'r traddodiad mawl. Diau fod cerddi dychan eraill o'i waith wedi eu colli, ond fe welir Dafydd yn elwa ar yr un traddodiad yn ei ymryson â Gruffudd Gryg, mewn modd sy'n gyson ag ymrysonau barddol diweddarach.⁷ Yr un ieithwedd ddifriol a geir yn rhai o'r cywyddau serch hefyd, wrth ddychanu'r gŵr eiddig neu'r amryfal rwystrau sy'n llyffethair i lwyddiant y carwr.

Awdlau ac englynion, fel y disgwylid, yw trwch ei ganu moliant. O ran ceinder eu crefft, eu hieithwedd ddyrchafedig a'u cynnwys lled gonfensiynol, mae'r rhain, fel awdlau 'Gogynfeirdd diweddar' y bedwaredd ganrif ar ddeg, yn llinach anrhydeddus Beirdd y Tywysogion. Diau, fel yr awgrymwyd, i Ddafydd ymgyfarwyddo'n gynnar â'r canu hwnnw, a chawsai gyfle i ddarllen casgliad canonaidd Llawysgrif Hendregadredd ar aelwyd Ieuan Llwyd. Efallai hefyd, gan gofio bod Cuhelyn Fardd a Gwynfardd Dyfed ymlith ei gyndeidiau, ei fod yn gyfarwydd â chanu llysaidd diflanedig hen deyrnas Deheubarth yn ogystal â chanu Gwynedd a Phowys.⁸ Mewn mawl a marwnad dyrchafa Dafydd fonedd a haelioni a doethineb a dewrder ei noddwyr, ynghyd â'r hen gyd-ddibyniaeth Daliesinaidd rhwng y bardd a'i noddwr. Atgyfnerthir y themâu hyn gan hen eirfa gyhyrog a delweddau cyfarwydd. 'Eryr bro yr hud' (6.2) yw Llywelyn ap Gwilym, 'fy ngharw mud' (6.16) a 'dôr gwŷr' (6.100); mae'n 'llorf llwyth' (5.37), 'llew wrhydri' (5.42). Mae Ifor Hael yn 'eurgarw hael' (12.2), yn ŵr 'eryraidd' (12.34), ac yn 'llew ysigfrwydr' (17.44). Gwraig 'heilwin' (9.9) yw Angharad, a 'gwingar ddâr' (9.62) yw ei gŵr, Ieuan Llwyd o Lyn Aeron. Mae Hywel, Deon Bangor yn 'R[h]oddi i eirchiaid yn Rhydderchaid' (8.42), sef yn debyg i Rydderch Hael, un o Dri Hael Ynys Prydain sy'n safonau hollbresennol yn y canu mawl. 'Nudd oreugamp' (11.26) yw Ifor Hael. Fel y mae Ifor yn 'rhoi Deifr ar esyth' (17.10), 'Deifr helgud' (6.13) yw Llywelyn, sef cyfeiriadau anachronistaidd ond trwm gan arwyddocâd at y Saeson fel gwŷr Deira, gelynyon Brythoniaid yr Hen Ogledd yn y canu arwrol cynnar. Y canu urddasol hwn yw'r hyn a eilw Dafydd yn ei foliant i Ddeon Bangor yn 'ferw Cynddelwaidd' (8.40), gan awgrymu ei fod, o ran crefft ac ethos, ymhell y tu hwnt i gyraeddiadau beirdd gwael, di-ddysg. Yn rhinwedd ei ganu mawl, pa ryfedd i Ruffudd Gryg ei osod yn olyniaeth y Cynfeirdd Taliesin, Aneirin a Myrddin, Gogynfeirdd fel

⁵ Ar ganu dychan y Llyfr Coch gw. Johnston, *Llên yr Uchelwyr*, 375-400; Dylan Foster Evans, *'Goganwr am Gig Ynyd': The Poet as Satirist in Medieval Wales* (Aberystwyth, 1996); Huw M. Edwards, DGIA 38-66; *id.*, 'Y Canu Dychan yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol', *Cof Cenedl* 23, gol. Geraint H. Jenkins (Llandysul, 2008), 1-33.

⁶ GC 11; GGDT 13.

⁷ Gw. Jerry Hunter, 'Cyd-destunoli Ymrysonau'r Cywyddwyr: Cypolwg ar yr "Ysbaddiad Barddol"', *Dwned* 3 (1997), 33-52.

⁸ Gw. R. Geraint Gruffydd, 'The Early Court Poetry of South West Wales', SC 14/15 (1979-80), 95-105.

Cynddelw a Phrydydd y Moch, a dau fardd a gynhaliai'r un traddodiad wedi'r goncwest, Casnodyn a Thrahaearn Brydydd Mawr?⁹

Er mor gonfensiynol ar un wedd yw'r awdlau a'r englynion hynny lle mae Dafydd yn cyflawni swyddogaeth y bardd mawl, nid canu unffurf a di-fflach mohono. Ceir galar a dicter dwfn yn y farwnad i'w ewythr, cerdd sy'n dwyn i gof mewn mannau farwnad i Lywelyn arall a drawyd gan lafn estron, sef awdl enwog Gruffudd ab yr Ynad Coch i Lywelyn ap Gruffudd.¹⁰ Yn adeiladwaith patrymus yr englynion i Ifor Hael (12) mae Dafydd fel pe'n ymffrostio yn ei ddyfeisgarwch o fewn hualau'r grefft, ac mae'r un clyfrwch i'w weld yn y gyfres o gyferbyniadau rhethregol rhwng rhagoriaeth a chyffredinedd yn yr awdl i Ddeon Bangor (8.29-40). Dro arall synhwyrir ymyrraeth y canu serch, sy'n nodweddiadol o hoffter Dafydd o asio ac addasu *genres* barddoniaeth. Ym 'Marwnad Angharad' (9) ymglywir ag ieithwedd y canu serch yn y disgrifiadau ohoni ac yn y ddelwedd o'r bardd nychlyd, dagreul, dyfais briodol ddigon gan mai i Angharad y canwyd y cywydd 'Caer Rhag Cenfigen' (122) ac felly hefyd, mae'n debyg, y cywydd i ferch o Is Aeron (136). Ar ddechrau'r awdl foliant i Ieuan Llwyd ab Ieuan Fwyaf o Enau'r Glyn (7) awgrymir cymhariaeth rhwng pellter y bardd oddi wrth ei noddwr a hiraeth am ferch yng ngesni Mai. Ac yn y farwnad i Lywelyn ap Gwilym dwyseir mudandod y golled drwy alw ar y gŵr marw i godi o'i wely oer, yn debyg i'r modd y byddai bardd yn cyfarch ei gariad mewn serenâd fel y gwna Llywelyn Goch yn ei farwnad yntau i Leucu Llwyd.

Wrth fentro moli Ifor Hael ar fesur y cywydd aeth Dafydd â'r ysbryd arbrofol yma gam ymhellach. Er mai'r un rhinweddau a folir yn y bôn, rhydd bwyslais neilltuol ar haelioni Ifor, ar ddiddanwch gwâr ei lys, ac ar y berthynas glôs, werthfawrogol rhwng dau enaid cytûn. Gwedda'r mesur newydd a'i idiom fwy ystwyth ac anffurfiol i gynhesrwydd y mawl. Gwnaeth cywyddau serch Dafydd lawer i sicrhau poblogrwydd y mesur, ac yn y pedwar cywydd i Ifor Hael (13-16), â rhagddo i briodi rhai o nodweddion y canu hwnnw â'r traddodiad 'swyddogol'. Chwarae ar boblogrwydd ei gywyddau serch a wna yn y cywydd 'Basaleg', wrth anfon llatai at drigolion Môn i'w hysbysu ei fod yn 'caru dyn uwch Caerdyf' (14.10). 'O serch Ifor' y cân bellach, a'r berthynas gariadus hon rhwng y bardd a'i noddwr yw un o themâu canolog y canu. Diau mai peth rhyfygus yng ngolwg noddwyr mwy ceidwadol fuasai nid yn unig defnyddio'r cywydd i foli uchelwr, ond cyfuno confensiynau mawreddog y canu mawl, a geir yn y cywyddau fel yn yr awdl a'r englynion i Ifor Hael, â delweddaeth ysgafnach y canu serch a natur. Ond er mor arloesol yw'r cywyddau hyn fe ddeil Dafydd fod ei fawl yn barhad o draddodiad Taliesin. Yn y cywydd 'Diolch am Fenig' rhydd '[f]endith Taliesin' ar Ifor a hynny yn 'neuadd Reged' (15.33-6), ac mae'r cyfeiriadau at oes arwrol yr Hen Ogledd yn arbennig o drawiadol yn y cerddi i Ifor Hael. Dyma fynnu lle'r cywydd mawl i uchelwr yn mhrif ffrwd y traddodiad barddol.

Ar y mesur newydd, yn briodol ddigon, y marwnadodd Dafydd ei gyd-gywyddwyr Madog Benfras, Gruffudd ab Adda a Gruffudd Gryg (20-22). Gan i Fadog a Gruffudd Gryg ganu cywyddau marwnad i Ddafydd mae'n debygol mai ffug-farwnadau yw'r rhain, ond er gwaetha'r elfen gellweirus a berthyn i'r *genre*

⁹ GDG t. 428.

¹⁰ CBT vii, 36. Nid oes sicrwydd mai'r Eingl-Normaniaid a oedd yn gyfrifol am ladd Llywelyn; gw. nodyn cefndir rhif 6.

gellir darllen y tri chywydd fel teyrngedau dilys a chrefftus i feirdd a fu'n arloesi gyda Dafydd ar fesur cywydd.¹¹ Fel beirdd serch a natur y'u disgrifir yn bennaf, gan roi bri ar y canu ysgafn, amgen a oedd yn prysur ennill poblogrwydd yng nghartrefi'r uchelwyr. Dichon hefyd fod yma ymgais i ennill statws i'r mesur ei hun drwy ei gymhwyso at swyddogaeth draddodiadol y farwnad, gan fraenaru'r tir ar gyfer cywyddau marwnad urddasol Iolo Goch. Ffug-farwnad, yn sicr, yw'r cywydd a ganodd Dafydd i Rydderch ab Ieuan Llwyd o Lyn Aeron (10), ac felly hefyd gywydd marwnad Gruffudd Gryg i Rys ap Tudur o Fôn.¹² Gan fod lle i gredu mai ffug-farwnad a ganodd Dafydd i Ifor Hael a'i wraig Nest (17),¹³ mae'n syndod mai awdl ac nid cywydd yw'r cyfrwng a ddewisodd ar yr achlysur hwnnw. Fe welir Dafydd yn ei gerddi i'w gyd-gywyddwyr fel rhan o gymdeithas o feirdd ifainc a oedd a'u bryd ar ymestyn ffiniau barddoniaeth yn ail chwarter y bedwaredd ganrif ar ddeg. Mae'n amlwg ei fod ef a Madog Benfras, a enwir mewn cofnodion llys o'r blynyddoedd 1339-40,¹⁴ yn gyfeillion agos. Yn ogystal â'r marwnadau a ganodd y naill i'r llall, ceir ymddiddan rhyngddynt sy'n cwyno am alltudio'r eos o Goed Eutun yng nghyfeffin Madog ym Maelor (155), ac mewn cywydd arall (19) dywed Dafydd i Fadog dderbyn cae bedw yn rhodd gan ei gariad, yn wahanol i Iorwerth ab y Cyriog o Fôn sy'n disgwyl modrwy aur yn dâl am ei gerddi yntau. Efallai mai Madog hefyd yw'r cydymaith cynorthwyol, 'Brawd-ddyn ym o brydydd nwyf' (95.6), yn y cywydd 'Chwarae Cnau i'm Llaw'. Prin hanner dwsin o gywyddau Madog sydd wedi goroesi, ac mae pob un yn ymwneud â serch. Yr hynotaf ohonynt yw cywydd 'Yr Halaenwr',¹⁵ cywydd storiol digrif yn null y *fabliaux* Ewropeaidd, lle mae'r bardd yn llwyddo i dwyllo ei ffordd i mewn i dŷ'r ferch drwy gymryd arno fod yn werthwr halen. Er mai llwyddiant yw ystryw'r carwr yn y gerdd hon, yn nhraddodiad y *fabliaux* ac yn groes i droeon trwstan Dafydd ap Gwilym, mae cywydd 'Yr Halaenwr' yn gyd-destun dadlennol i gywyddau naratif fel 'Y Cwt Gwyddau' (67), 'Trafferth mewn Tafarn' (73) a 'Sarhau ei Was' (74), ac yn awgrym bod nifer o gerddi difyrus tebyg wedi eu colli.

Wedi dweud hynny, rhaid cydnabod bod cywydd 'Yr Halaenwr', fel y rhan fwyaf o gywyddau serch cyfoeswyr Dafydd – a barnu wrth y gyfran fechan sydd gennym – yn llai dychmygus ac amlhaenog na chanu Dafydd ei hun. Yr argraff a geir yw mai ef oedd yr arloeswr mwyaf herfeiddiol, ac mai dilyn ei arweiniad ef i ryw raddau a wnaeth y to cyntaf o gywyddwyr. Er bod gormodiaith a dychan yn rhan o gonfensiwn yr ymrysonau barddol, fe all fod yn arwyddocaol mai un o gyhuddiadau Dafydd yn erbyn Gruffudd Gryg yw mai dynwardwr ydyw, carreg ateb y beirdd. 'Caned bardd i ail harddlun', meddai, 'Gywydd o'i henwydd ei hun' (24.55-6). Etyb Gruffudd drwy wadu honiad rhyfygus Dafydd wrth wŷr y De 'Nad oedd ym ddim o'm gwawdlef / Eithr ei ddysg: athro oedd ef' (25.9-10). Nid oes ond ychydig o ganu serch Gruffudd ar glawr, ond mae'n drawiadol mai fel bardd serch yn bennaf oll y'i disgrifir gan Dafydd yn ei ffug-farwnad iddo; un cwpled yn unig a neilltuir i'w ganu mawl. Gellir nodi defnydd Gruffudd o ddyfais y llatai a'r tebygrwydd rhwng ei ddyfaliadau i'r lleuad ac eiddo Dafydd,

¹¹ Gw. Huw M. Edwards, 'Murnio Marwnadau: Golwg ar y Ffug-farwnad yng Nghyfnod y Cywydd', *Dwned* 5 (1999), 47-70.

¹² DGG LXXX.

¹³ Gw. nodyn cefndir y gerdd.

¹⁴ Gw. GDG¹ lviii.

¹⁵ DGG LXX.

ond mae'r ddau gywydd hynny,¹⁶ sy'n deillio o'i bererindod i Santiago de Compostella, yn gerddi nodedig yn eu hawl eu hunain. Un gwahaniaeth sylfaenol, hyd y gellir barnu, yw fod persona'r carwr ymostyngol a dioddefus yn absennol o gerddi Gruffudd. Yn ei unig gywydd serch diledryw¹⁷ ar bryd a gwedd y ferch y canolbwyntir, yn hytrach nag ar ymateb y bardd. Mae'r cywydd hwnnw'n gyson, felly, â chwyn sylfaenol Gruffudd yn yr Ymryson, sef nad yw delwedd Dafydd ohono'i hun fel carwr dioddefus yn ddim ond gormodiaith gelwyddog sy'n groes i eirwiredd ac urddas cynhenid y traddodiad barddol Cymraeg. Drwy arfer y term 'geuwawd' y mae Dafydd fel pe'n derbyn bod gormodiaith yn sail i'w ganu, ond deil fod 'cywydd gwiw Ofydd' yr un mor deilwng o barch â'r canu mawl: 'Nid mwy urddas, heb ras rydd, / Gwawd no geuwawd o gywydd' (24.5-6). Cydnebydd nad yw at ddant pawb, ond myn fod galw amdano law yn llaw â'r canu traddodiadol. Clywir yr un apêl at boblogrwydd y canu newydd yn ateb Dafydd i'r Brawd Llwyd sy'n ei gyhuddo o ganu'n bechadurus i serch y cnawd ac i bethau'r byd:

Pan fo cystal gan bob dyn
 Glywed pader gan delyn
 Â chan forynion Gwynedd
 Glywed cywydd o faswedd
 Mi a ganaf, myn fy llaw,
 Y pader fyth heb beidiaw. (148.81-6)

Ceir ateg i boblogrwydd ei ganu yng Ngwynedd, cadarnle hen draddodiad Beirdd y Tywysogion, yng nghwpled enwog Gruffudd Gryg: 'Hoff fu yng Ngwynedd, meddynt, / Yn newydd ei gywydd gynt' (25.43-4). Ond clod cyndyn sydd yn y geiriau hynny. Buan, medd y bardd o Fôn, y pylodd sioc y newydd-deb gwreiddiol.

Mewn gwirionedd ceir ambell gysail frodorol ddigon arwyddocaol i'r cywydd serch newydd. Bron ddwy ganrif ynghynt yn awdlau serch byrion y bardd-dywysog Hywel ab Owain Gwynedd, cawn esiamplau prin yn y cyfnod hwnnw o ganu goddrychol yn llais y carwr dioddefus.¹⁸ Fe'i ceir hefyd i raddau yn rhieingerdd ei gyfoeswr Cynddelw Brydydd Mawr i Efa ferch Madog ap Maredudd, tywysog Powys.¹⁹ Dadleuwyd yn ddiweddar fod Dafydd yn gyfarwydd â cherddi Hywel ab Owain ac y gallasant fod yn fodd i ysgogi ei ddychymyg mewn mwy nag un o'i gywyddau.²⁰ Dangoswyd bod adleisiau mwy pendant i'w cael yng nghanu Casnodyn ac Iolo Goch, beirdd, fel Dafydd, a chanddynt berthynas ag aelwyd Ieuan Llwyd o Lyn Aeron ac a allasai, felly, fel yntau, weld yr awdlau yn llyfr llys Parcrhydderch, Llawysgrif Hendregadredd. Dyma achos diddorol o ddylanwad llenyddol y gellir ei olrhain i destun ysgrifenedig penodol. Gan ei bod yn annhebygol y buasai confensiynau serch

¹⁶ *Ib.* LXXV, LXXIV.

¹⁷ *Ib.* LXXII.

¹⁸ CBT ii, 7-11. Gw. Huw M. Edwards, 'Canu Serch Hywel ab Owain Gwynedd', LIC 30 (2007), 1-16; J. E. Caerwyn Williams, 'Cerddi'r Gogynfeirdd i Wragedd a Merched, a'u Cefndir yng Nghymru a'r Cyfandir', LIC 13 (1974-81), 3-112.

¹⁹ CBT iii, 5. Gw. Ann Parry Owen, 'Rhieingerdd Efa ferch Madog ap Maredudd: Cynddelw Brydydd Mawr a'i cant', YB XIV (1988), 56-86.

²⁰ Dafydd Johnston, 'Hywel ab Owain Gwynedd a Beirdd yr Uchelwyr', yn *Hywel ab Owain Gwynedd: Bardd-Dywysog*, gol. Nerys Ann Jones (Caerdydd, 2009), 134-51.

cwrtais trwbadwriaid Profens wedi mudo i ogledd Cymru cyn iddynt gyrraedd gogledd Ffrainc tua diwedd y ddeuddegfed ganrif, y tebyg yw mai traddodiad brodorol a adlewyrchir yng nghanu serch llysaidd Hywel ab Owain a Chynddelw. Nid oes angen chwilio ymhellach na chwedlau Cymraeg cynnar fel Pedair Cainc y Mabinogi a Chulhwch ac Olwen am y syniad a geir yn eu cerddi hwy, fel yn y canu serch diweddarach, o serch fel gorffwylledd ac fel clefyd sy'n dwyn nychdod yn ei sgil. Traddodiad brodorol hefyd sy'n cyfrif am y set o ddelweddau am harddwch merch sy'n gyffredin i'r holl ganu i wragedd a merched o gyfnod Hywel ab Owain ymlaen. Y rhai mwyaf nodweddiadol yw delweddau goleuni, ewyn dŵr a gwynder eira, delweddau sy'n britho cywyddau Dafydd ap Gwilym. Mae'r defnydd a wnaeth ef ohonynt, fel y disgwylid, yn greadigol yn aml. Mae'n hoff o'u cyflwyno ar ffurf sangiadau eironig sy'n amodi ystyr y brif frawddeg, ac o addasu ac ymestyn y ddelwedd syml. Enghraifft ddadlennol yw 'Morfudd fel yr Haul', lle cyflwynir y tair delwedd fwyaf adnabyddus yn eu tro:

Gorllwyn ydd wyf ddyn geirllaes,
 Gorlliw eiry mân marian maes.
 Gwyl, Dduw, mae golau o ddyn,
 Goleuach nog ael ewyn.
 Goleudon lafarfron liw,
 Goleudaer ddyn, gŵyl ydiw.
 Gŵyr obryn serch gerdd o'm pen,
 Goreubryd haul ger wybren ... (111.1-8)

Ond yn hytrach na bodloni ar hyn, myn Dafydd archwilio delwedd yr haul i'r eithaf yn drosiad o ddeuoliaeth Morfudd. Yn ogystal â bod yn ddisglair a thanbaid fel yr haul, mae hi hefyd yn anwadal ac anodd ei dal, yn union fel codiad a machlud haul a'i ddiflaniad y tu ôl i gwmwl du. Dyma ymestyn y traddodiad mewn modd gwreiddiol a soffistigedig iawn.

Yng 'Ngorhoffedd' Hywel ab Owain Gwynedd²¹ hefyd, lle'r ymffrostia iddo 'gael' naw o ferched gwahanol, ceir cynsail i'r elfen fwy cnawdol a herfeiddiol sydd i'w chael mewn amryw o gywyddau Dafydd yn wrthbwynt i ddelfrydiaeth serch cwrtais. Perthnasol yn ogystal yw'r cyfeiriad at y gŵr eiddig, un o gymeriadau stoc y traddodiad cyfandirol, mewn awdl fer a briodolir i Gynddelw – 'Ni mad gychawdd gwen gwely Eiddig!'.²² Fe all fod yn gyd-ddigwyddiad, ond nid annichon mai dylanwad y bardd Lladin Ofydd a welir yma, bardd a enwir yng 'Ngorhoffedd' Hywel ab Owain Gwynedd. Enwir Ofydd gan Ddafydd ar sawl achlysur fel awdurdod ar serch neu batrwm o garwr,²³ fel sy'n gyffredin yn llenyddiaeth yr Oesoedd Canol, a cheir cryn debygrwydd yn eu hymdriniaeth eironig, chwareus â'r pwnc. Ond gan mor drwyadl oedd dylanwad *Amores* Ofydd, ac yn enwedig ei *Ars Amatoria*, ar ganu serch gorllewin Ewrop drwyddo draw, anodd iawn yw barnu a oedd ar Ddafydd ddyled uniongyrchol i'r bardd Lladin ai peidio.²⁴

²¹ CBT ii, 6.

²² CBT iii, 4.8.

²³ Gw. y nodyn ar *Ilyfr Ofydd* yn 95.1, a'r cyfeiriadau at Ovid ym mynegai DGIA.

²⁴ Awgrymodd Rachel Bromwich fod dylanwad yr *Amores* i'w weld ar 'Y Don ar Afon Dyfi' (51); gw. nodyn cefndir y gerdd.

Os Hywel ab Owain Gwynedd yw'r gynsail bwysicaf yng nghyfnod y tywysogion, o Wynedd hefyd y daw rhagflaenydd mwyaf arwyddocaol Dafydd yn yr hanner can mlynedd wedi'r goncwest, o leiaf o blith y beirdd y mae eu gwaith ar glawr. Tanlinellir arwyddocâd Gruffudd ap Dafydd ap Tudur gan y ffaith fod Dafydd yn benthyca cwpled o'i ganu serch yn ei farwnad i'w ewythr.²⁵ Dwy o'i gerddi serch sydd gennym, ond mae'r thema'n brigo yn y tair cerdd arall a gadwyd: englynion yn galw ar Gedig Sant i'w ryddhau rhag caethiwed serch; englynion yn diolch i noddwraig am gae (gwregys) sy'n debyg i arwyddion serch y Cywyddwyr cynnar, ac awdl yn gofyn bwa (enghreifftiau cynnar o'r canu gofyn a diolch a gysylltid â mesur y cywydd maes o law). Gofynna Gruffudd i'w noddwr beidio â pheri gofid iddo 'Er mwyn mireinson morwynol ddynion / A sôn llateion a'i lletya',²⁶ yr enghraifft gynharaf o'r gair *llatai* 'negesydd serch'. Oni chaiff y bwa, meddai, 'Rhianedd Gwynedd a'th ogana',²⁷ sy'n dwyn i gof gyfeiriad Dafydd at forynion Gwynedd yn ei ymddiddan â'r Brawd Llwyd. Diau fod y gynulleidfa honno'n ddigon cyfarwydd ag amrywiaeth o ganu serch difyrus cyn dyfodiad y cywydd. Hawdd dychmygu ei gwerthfawrogiad o ddyfeisgarwch Gruffudd wrth iddo gymryd arno ddwyn cwyn gyfreithiol ffurfiol yn erbyn merch am iddi ei ladd heb arfau. Mae hithau'n gwadu'r cyhuddiad gerbron y llys:

'Dy gŵyn fu gynnau dy ladd heb arfau
 Â llafnau geiriau gwyrion llednais;
 A'm llw, bei'th leddid â gair, llesmair llid,
 Yn fyw na'th welid, edlid adlais;
 A byw y'th welaf, i bawb y tystiaf,
 A brawd a archaf ac a erchais.'²⁸

Â'i chlyfrwch soffistigedig, ei chywair cellweirus, hunanfychanol, ei sefyllfa ddramatig a'i defnydd o ymddiddan, gallasai cerdd fel hon gynnig ysgogiad ffrwythlon i gywyddau serch Dafydd ap Gwilym. Cerdd ydyw sy'n chwarae ar un o fotiffau nodweddiadol y traddodiad serch cwrtais, sef arfau serch,²⁹ sail yr ormodiaith ddigywilydd a gythruddodd Gruffudd Gryg yn yr Ymryson.

Mae englynion Gruffudd ap Dafydd i ferch ddiymateb o Eutun ym Maelor, sef y gerdd y dyfynna Dafydd ohoni, yn frith o fotiffau a gâi eu datblygu maes o law yn y cywyddau serch. Edliwir i'r ferch ei balchder, ei thwyll, ei hudoliaeth, ei brad a'i gelyniaeth, a chreadur llesg a di-gwsg yw'r bardd, ar farw o serch. Mae'r serch hwnnw yn glefyd, yn gaethiwed, yn orffwylledd ac yn feddwod, ac erfynnir ar y ferch i anfon cennad er mwyn trefnu oed. Mwy arwyddocaol fyth yw'r sôn am garu rhydd a diniwed yn y llwyn, mewn termau sy'n achub y blaen ar ddelwedd ganolog y deildy yng nghywyddau Dafydd ap Gwilym:

Yn ôl Addaf, naf nwyfradd,
 Cyn cyfraith pab na'i drabludd,
 Y gorug pawb ei garedd
 Â'i gares yn ddigerydd.

²⁵ Gw. 6.27-8n. Golygwyd ei gerddi yn GGDT 1-5.

²⁶ GGDT 2.13-14.

²⁷ *ib.* 2.22.

²⁸ *ib.* 5.39-44. Awgryma tystiolaeth fewnol y gerdd ddyddiad mor gynnar â 1284-5 neu oddeutu 1318, gw. *ib.* tt. 3, 35.

²⁹ Am enghreifftiau Ffrangeg o'r syniad o ladd heb arfau gw. Edwards, DGIA 98.

Digerydd fydd, rhydd rhwyddgael,
 (Da y gwnaeth Mai dai o'r dail)
 Deuoed dan goed i dan gël
 I minnau, fi a'm annwyl.³⁰

Un o feirdd mwy ceidwadol y cyfnod oedd Casnodyn, a pherthyn ei dair cerdd i ferched dibriod³¹ yn nes i draddodiad moliannus y rhieingerdd fel y'i diffinir yng ngramadeg barddol Einion Offeiriad. Ond ceir ganddo yntau hefyd nifer o'r motiffau y sylwyd arnynt yng nghanu Gruffudd ap Dafydd, gan gynnwys yr oed yn y llwyn:

Da gyngor rhagor rhag fy nifrawd—ym
 Am nas caf yn briawd:
 Dwyn hwyl, dyn gŵyl goleuwawd,
 Dan frig y goedwig ag Awd.³²

Tua'r un adeg, yn nauddegau'r ganrif, yr oedd Einion wrthi'n cynnull ei ddeunydd gogyfer â'i ramadeg, a hynny'n fwy na thebyg dan nawdd Rhys ap Gruffudd o Ddyffryn Tywi, un o uchelwyr mwyaf dylanwadol ei ddydd a pherthynas deuluol i Ddafydd ap Gwilym. Yr hyn sy'n drawiadol yw fod y rhan fwyaf o benillion enghreifftiol Einion wedi eu tynnu o ganu serch y cyfnod ar drothwy datblygiad y cywydd, fel petai yma ymgais fwriadol i godi statws y *genre*. Yn enwedig ar fesurau'r awdl ceir penillion 'gogynfarddol' yn nhraddodiad lled ffurfiol y rhieingerdd, ond ceir hefyd ganu serch ysgafnach a mwy personol ei naws. Mae englyn fel hwn, a'i bwyslais ar dwyll a hudoliaeth y ferch, a'i gyfeiriadaeth chwedlonol, yn dwyn i gof gywyddau Dafydd ap Gwilym lawn cymaint â chanu serch Gruffudd ap Dafydd ap Tudur:

Un dwyll wyt o bwyll, o ball dramwy—hoed,
 Â hud Math mab Mathonwy;
 Unwedd y'th wneir â Chreirwy,
 Enwir fryd, rhyhir frad rhwy.³³

A dyma'r oed yn y goedwig unwaith eto, a'r eos yn aderyn serch fel y mae yn y cywyddau:

Cathlau eos nos, yn oed—y'u ciglau,
 Mau gofau gofalhoed,
 Coethlef, herwoddef hiroed,
 Cethlydd, cain awenydd coed.³⁴

Darn o dystiolaeth awgrymog iawn yw enghraifft y gramadeg o awdl-gywydd:

³⁰ GGDT 4.85-92. Gw. Dafydd Johnston, 'Paradwys Dafydd ap Gwilym', YB XX (1995), 114-24; Meirion Pennar, 'Syniad y "Caredd Digerydd" ym Marddoniaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol', YB IX (1976), 33-40.

³¹ GC 3, 4, 6.

³² *Ib.* 6.41-4.

³³ GEO Atodiad C, 4.

³⁴ *Ib.* 7.

Hirwen, na fydd drahäus
 Na rhy esgeulus eiriau;
 Na watwar am dy serchol
 A'th ganmol ar gywyddau.
 O gwrthody, liw ewyn,
 Was difelyn gudynnau,
 Yn ddiwladaidd, da ei lèn,
 A'i awen yn ei lyfrau,
 Cael yt filain aradrgaeth,
 Yn waethwaeth ei gyneddfau.³⁵

Adlewyrchir yn y pennill lled ddiaddurn ac ystwyth ei fynegiant hwn thema sy'n boblogaidd yng nghanu Lladin ysgolheigion crwydrad yr Oesoedd Canol, y *clerici vagantes*, sef rhagoriaeth y gŵr llên fel carwr o'i gymharu â'r gwladwr diddiwylliant. Byddai'r thema, a'r agwedd edliwgar tuag at y ferch, yn ymddangos eto maes o law yng nghywyddau Dafydd ap Gwilym.³⁶ Dyma'r canu 'teuluaid' a oedd at ddant Einion Offeiriad, canu ysgafnach a mwy diddan na'r hyn a berthyn i swyddogaeth foliannus y 'prydydd'. Tua'r un cyfnod cofnodwyd enghreifftiau o ganu achlysurol yn yr un ysbryd yn nhrydedd haen Llawysgrif Hendregadredd,³⁷ a chawsai Dafydd gyfle i'w darllen ar aelwyd Ieuan Llwyd. Mae'n fwy na thebyg hefyd, gan fod cyswllt agos rhwng Einion Offeiriad a theulu Parcrhydderch, y buasai Dafydd yn gyfarwydd â thestun y gramadeg. Mae Rachel Bromwich wedi dadlau'n argyhoeddiadol fod ei gywyddau yn cynnwys sawl adlais o benillion y gramadeg,³⁸ ond gallasai dynnu hefyd ar gorff ehangach o ganu a oedd yn cylchredeg ar lafar yng Ngheredigion a'r tu hwnt. Er bod Einion yn gwahaniaethu'n ddeddfol rhwng swyddogaeth y 'teuluwr' ac eiddo'r 'clerwr' mwy iselradd, yn y cyfnod o ansicrwydd a ddilynodd y goncwest ni fuasai'n syndod pe bai'r clerwyr cyffredin hyn – y 'glêr ofer' fel y'u gelwir gan Gasnodyn³⁹ – wedi dylanwadu ar y canu amgen, mwy poblogaidd ei naws. Yn ogystal â'r ymbil a'r goganu a'r gwarthruddo sy'n ennyn llid y gramadegydd, gallasai diddanwch mwy amrwd y glêr gynnwys canu serch a chanu tymhorol a chanu storiol ar fesurau fel y traethodl a'r awdl-gywydd digynghanedd, mesurau sy'n brigo eto yn y canu rhydd diweddarach.⁴⁰ Pan ddaeth cenhedlaeth Dafydd ap Gwilym i ddyrchafu'r traethodl drwy ei ffurfioli a chyflwyno cynghanedd, diau iddynt hefyd ddyrchafu rhai o bynciau'r traddodiad islenyddol ac mai dyna ran o'r esboniad am ehangder eu *repertoire*.

O ran y gynhysgaeth frodorol, felly, nid oedd prinder deunydd crai y gallai bardd o ddawn Dafydd ei goethi a'i ddatblygu yn unol â chwaeth y noddwyr newydd. 'Roedd yr amgylchiadau'n ffafriol i ddatblygiad y cywydd serch. Mae lle i gredu hefyd fod y traddodiad Cymraeg wedi ei gyfoethogi yng nghanu Dafydd, yn anad

³⁵ *Ib.* 33; Atodiad Dd, 37. Cyfunwyd fersiwn Einion Offeiriad â'r fersiwn a geir yng ngramadeg gogleddol Dafydd Ddu o Hiraddug, gw. *ib.* t. 172; Johnston, *Llên yr Uchelwyr*, 30-1.

³⁶ Gw. nodyn cefndir rhif 72. Cymh. ymhellach eiriau Gruffudd ap Dafydd ap Tudur wrth y ferch y mae'n ei chyhuddo o'i ladd heb arfau, GGDT 5.45 'Na ddilynwch dlawd ni ddilynwy wawd'.

³⁷ Gw. GLIBH, yn enwedig rhifau 12-17; Johnston, *Llên yr Uchelwyr*, 65-7.

³⁸ Rachel Bromwich, 'Gwaith Einion Offeiriad a Barddoniaeth Dafydd ap Gwilym', YB X (1977), 157-80.

³⁹ GC 7.199.

⁴⁰ Gw. R. M. Jones, 'Mesurau'r Canu Rhydd Cynnar', B 28 (1979), 413-41; Edwards, DGIA 106-8.

yr un bardd arall, gan barodrwydd i gofleidio dylanwadau Ewropeaidd ehangach. Fel yr awgrymwyd eisoes, go brin bod dylanwad y serch cwrtais cyfandirol wedi treiddio o'i darddle ym Mhrofens i ogledd Cymru erbyn canol y ddeuddegfed ganrif. Ond erbyn y bedwaredd ganrif ar ddeg yr oedd ei gonfensiynau wedi hen ymsefydlu yng ngogledd Ffrainc ac yng ngweddill gorllewin Ewrop, gan gael eu cymathu a'u haddasu yn y llenyddiaethau brodorol. Er bod yng nghanu Dafydd elfen gref o gnawdolrwydd a hyd yn oed siniciaeth ddigon 'anghwrtais' ei naws, adlewyrcha hefyd beth o ddelfrydiaeth lednais yr *amour courtois* cyfandirol ym mhersona'r carwr hirymarhous sy'n ysu am ffafr ei gariadferch ac yn prysur ddihoeni gan serch diwobrwy. Dyddgu fonheddig, anghyffwrdd sy'n cyfateb orau i *dame* aruchel y traddodiad serch cwrtais ar ei ffurf buraf, ond mae rhai o elfennau mwyaf ffasiynol y llenyddiaeth hon yn frith drwy gywyddau Dafydd. Un o'r amlycaf o'r rhain yw'r ddelwedd o wayw serch (sy'n deillio yn y pen draw o ddelwedd glasurol saeth Ciwpid), a chyffredin yw'r consêt fod y bardd ar farw oherwydd difrawder y ferch. Ceir pwyslais ar serch dirgel, cyfrinachol, ac mae cymeriad y gŵr eiddig, fel y sylwyd droeon, yn cyfateb i *Jaloux* y traddodiad cyfandirol. Fe welwyd uchod fod awgrym o agwedd ymddarostyngol y serch cwrtais ynghyd â rhai o'i fotiffau diffiniol i'w cael gan y genhedlaeth o flaen Dafydd: arfau serch, er enghraifft, a'r syniad o farw o serch; caethiwed y carwr a brad a gelyniaeth y ferch. Awgryma amlygrwydd elfennau o'r fath, nad oes fawr o'u hól yn y farddoniaeth Gymraeg gynharach i wragedd a merched, fod dylanwadau estron wedi dechrau treiddio i'r canu brodorol eisoes.⁴¹ Cwestiwn nad oes modd ei ateb yw i ba raddau yr oedd rhai o ffasiynau mwyaf poblogaidd y traddodiad Ewropeaidd wedi eu hamsugno yng nghanu coll y glêr.

Er mai gwaith dyrys a pheryglus yw ceisio adnabod dylanwadau penodol, o'u tafoli ynghyd mae'r cyfatebiaethau rhwng cywyddau Dafydd a chanu serch Ffrangeg ac Eingl-Normaneg yr Oesoedd Canol yn dra awgrymog.⁴² Yr argraff a geir yw ei fod yn cyfranogi o ddiwylliant llenyddol eang a oedd, erbyn y bedwaredd ganrif ar ddeg, wedi treiddio ymhell y tu hwnt i Brofens a gogledd Ffrainc. Gwelir ei ôl yn Lloegr yng nghasgliad yr 'Harley Lyrics' a gopiwyd yn Swydd Henffordd oddeutu 1330,⁴³ ac yn nes ymlaen, wrth gwrs, ar ffurf fwy dysgedig ac ymwybodol lenyddol ym marddoniaeth Chaucer. Gwyddom i Chaucer fynd ati i gyfieithu ac i addasu modelau Ffrangeg adnabyddus,⁴⁴ ond drwy ba gyfryngau y gallai'r dylanwadau estron fod wedi cyrraedd clust a llygad y Cymro? 'Roedd yr Eglwys a'i Lladin rhyngwladol a rhwydwaith y

⁴¹ Gw. Edwards, DGIA 90-108.

⁴² *Ib.* 202-83; Rachel Bromwich, 'Tradition and Innovation in the Poetry of Dafydd ap Gwilym' a 'The Sub-literary Tradition', APDG 57-104; T. M. Chotzen, *Recherches sur la poésie de Dafydd ab Gwilym* (Amsterdam, 1927). Ystyrir y canu yn ei gyd-destun Ewropeaidd hefyd gan Helen Fulton, DGEC.

⁴³ G. L. Brook (gol.), *The Harley Lyrics* (4ydd arg., Manchester, 1968); gw. rhagymadrodd ac Elinor Rees, 'Provençal Elements in the English Vernacular Lyrics of MS. Harley 2253', *Stanford Studies in Language and Literature* (1941), 81-95. Tynnir sylw at rai cyfatebiaethau rhwng y cerddi hyn a chywyddau Dafydd ap Gwilym yn DGIA pennod 7; gw. ymhellach A. T. E. Matonis, 'The Harley Lyrics: English and Welsh Convergences', *Modern Philology* 86 (1988-9), 1-21.

⁴⁴ Gw. Charles Muscatine, *Chaucer and the French Tradition* (Berkeley, California, 1957); J. I. Wimsatt, *Chaucer and the French Love Poets: The Literary Background of the Book of the Duchess* (Chapel Hill, NC, 1968); *id.*, *Chaucer and his French Contemporaries: Natural Music in the Fourteenth Century* (Toronto, 1991).

mynachlogydd – gan gynnwys Ystrad Fflur lle y gallai Dafydd fod wedi derbyn rhywfaint o addysg eglwysig – yn gyfrwng posibl i drosglwyddo dylanwadau o'r naill ddiwylliant i'r llall. Cofier hefyd am y cysylltiadau masnachol a milwrol â'r Cyfandir. Yn y cywydd 'I Ddymuno Lladd y Gŵr Eiddig' (116) dywed Dafydd fod cyfeillion a pherthnasau iddo ar eu ffordd i ymladd yn Ffrainc ym mintai Rhys ap Gruffudd. Mae'n bosibl bod y bardd Llywelyn Goch wedi gwasanaethu yn Ffrainc ym mhedwardegau'r ganrif,⁴⁵ a bu Gruffudd Gryg yntau ar bererindod i Santiago yng ngogledd Sbaen. Er nad oes tystiolaeth bod Dafydd wedi mentro y tu hwnt i Gymru, mae'n amlwg nad oedd gorwelion y beirdd mor gyfyng ag y tybir weithiau. Mae cywyddau Dafydd yn llawn o eiriau o darddiad Romáwns,⁴⁶ rhai wedi eu benthyc yn uniongyrchol o'r Ffrangeg, eraill drwy'r Saesneg, a buasai'n gyfarwydd â chlywed y ddwy iaith rhwng muriau'r bwrdeistrefi. Gan mai Ffrangeg oedd prif iaith gweinyddiaeth gyhoeddus yr Eingl-Normaniaid o hyd, gellid disgwyl y buasai rhywfaint o Ffrangeg, yn ogystal â'r Saesneg, ar wefusau ei ewythr a'i athro barddol tybiedig, Llywelyn ap Gwilym, a ddaeth yn gwnstabl Castellnewydd Emlyn. Felly hefyd gyfaill a noddwr Dafydd, Rhydderch ab Ieuan Llwyd, yn rhinwedd ei swydd fel arbenigwr ar y gyfraith yng ngwasanaeth y brenin.⁴⁷

Yr achos mwyaf argyhoeddiadol o ddylanwad llenyddol penodol o du'r diwylliant Ffrengig yw'r cyfatebiaethau y sylwyd arnynt rhwng cywyddau Dafydd a'r *Roman de la Rose*.⁴⁸ Cychwynnwyd y rhamant fydryddol hirfaith hon gan Guillaume de Lorris tua 1230 gan lynu'n dynn wrth ddelfrydiaeth serch cwrtais fel y'i mireiniwyd yn llysoedd Profens, a'i hymestyn yn sylweddol ryw ddeugain mlynedd yn ddiweddarach gan Jean de Meun, awdur mwy bydol ddoeth a chanddo agwedd fwy sinigaidd at ei destun, yn drwm dan ddylanwad Ofydd. Fel gydag Ofydd, gan mor drwyadl yw dylanwad y *Roman de la Rose* ar farddoniaeth Ffrangeg yr Oesoedd Canol anodd yw sôn yn hyderus am ddyled uniongyrchol, ond cryfheir y ddadl gan y ffaith fod copi o'r *Roman* ym meddiant Llywelyn Bren o Senghennydd pan ddiennyddiwyd ef am wrthryfela yn erbyn arglwyddi Normanaidd Morgannwg yn 1317. Un o uchelwyr Morgannwg oedd Ifor Hael, ac yn y dalaith honno yn anad yr un rhan arall o Gymru cawsai Dafydd gyfle i ddod i gysylltiad â ffasiynau'r diwylliant Normanaidd. Mae'r *Roman* yn llawn o ddelweddaeth arfau serch, ac yn ogystal â phersona'r carwr dioddefus a'r ferch anghyffwrdd ceir yno gymeriadau stoc fel y gŵr eiddig, y cyfaill cynorthwyol, yr enllibiwr, a'r wrach sy'n gwarchod y fynedfa i gartre'r ferch, fel honno yn 'Tri Phorthor Eiddig' (68). Ceir hefyd ddelwedd y gaer sy'n amddiffyn serch rhag ei elynion, delwedd sy'n dwyn i gof drosiad estynedig 'Caer Rhag Cenfigen' (122) ac sy'n bur gyffredin yn y canu serch cyfandirol. Mwy awgrymog na hynny yw delwedd anarferol Guillaume de Lorris o'r amaethwr sy'n hau ei gnwd ac yn gwylio drosto'n bryderus cyn i storm ei ddifa ac yntau ar fin ei fedi, yn union fel y siomir y carwr gobeithiol. Dyna'r trosiad sy'n cynnal y cywydd 'Hwsmonaeth Cariad' (109), ond ar y llaw arall fe allai fod yn estyniad

⁴⁵ Gw. GLIGMH t. 3.

⁴⁶ Gw. Marie E. Surrige, 'Romance and Anglo-Saxon Elements in the Poetry of Dafydd ap Gwilym', *Proceedings of the First North American Congress of Celtic Studies* (Ottawa, 1988), 531-43. Ar ei ddefnydd dychmygus o'r benthyciadau hyn gw. Bromwich, APDG 8-9, 83-4.

⁴⁷ Awgryma Daniel Huws y gallasai weld casgliadau llawysgrif o ramantau Ffrangeg o'r math a oedd yn ffasiynol yn llys brenhinol Lloegr, gw. 'Llyfr Gwyn Rhydderch', CMCS 21 (Haf 1991), 17.

⁴⁸ Gw. Bromwich, APDG 73-5; Edwards, DGIA 158-65, 184-8, 214-33.

naturiol o'r ddelwedd sylfaenol o hau cnwd serch sydd i'w chael yn rhai o gerddi eraill Dafydd.⁴⁹ Yn nwylo'r Cymro mae delwedd yr amaethwr yn fwy manwl a chymhleth ac mae iddi fwy o rym teimladol, ac os darllen neu glywed y *Roman de la Rose* oedd yr ysgogiad gwreiddiol, nid efelychiad slafaidd a diddychymyg mo'r cywydd hwn.

Mae hynny'n gyffredinol wir am yr elfennau hynny yng nghanu Dafydd sy'n dwyn perthynas â ffasiynau adnabyddus yn llenyddiaeth Ewrop. Addasu'n greadigol oedd ei duedd, a hynny'n aml gydag elfen gref o barodi sy'n awgrymu y buasai hanfodion ei fodlau yn hysbys i'w gynulleidfa. Mae 'Dan y Bargod' (98) yn cyfateb yn agos i *genre* y serenâd (ac i ryw raddau hefyd gywyddau eraill lle mae Dafydd yn ymweld â chartre'r ferch liw nos),⁵⁰ fel y mae 'Y Wawr' (69) yn cyfateb i'r *aubade* neu'r wawrgan lle mae cariadon yn ffarwelio ar doriad gwawr.⁵¹ Mae patrwm sylfaenol y serenâd i'w gael, eto, yn y *Roman de la Rose*, ac yng nghanu poblogaidd diweddarach Ffrainc. Gwnaeth Dafydd ddefnydd eironig o'r confensiwn, fel y gwelwyd, yn y farwnad ingol i'w ewythr. Ceir eironi mwy chwareus yn 'Dan y Bargod' yn y modd y mae'n chwyddo y tu hwnt i bob rheswm ei ddiodefaint dan law ac eira, gan wahodd ei gynulleidfa i chwerthin am ben ei drueni. Yn gymhleth â'r hiwmor ceir awgrym o rwystredigaeth wirioneddol ei berthynas â Morfudd briod, anwadal, y math o gyfuniad amwys o ddigrifwch a dwyster sy'n gosod Dafydd ar wahân i'w gyfoedion. Yma, fel mewn cywyddau eraill, mae confensiwn llenyddol fel petai'n asio â'i brofiad diriaethol ef ei hun. Felly, hefyd, i gynulleidfa ganoloesol diau y buasai *genre* poblogaidd y *chanson de malmariée*,⁵² lle mae'r wraig ifanc yn cwyno wrth ei chariad am greulondeb ei hen wr dideimlad, yn gyd-destun ystyrllon i rai o gywyddau Morfudd. Meddylir yn arbennig am gywydd fel 'Llychwino Pryd y Ferch' (115) – er nad enwir Morfudd yno – neu 'Amau ar Gam' lle mae Morfudd ei hunan yn mynnu ei bod yn well ganddi ôl troed Dafydd yn y goedwig na'i 'godlawd wr priawd prudd' (117.17). Mwy arwynebol yw perthynas *genre* poblogaidd arall, sef y *pastourelle*, â'r cywydd 'Merch Gyndyn' (143),⁵³ lle mae Dafydd yn ymddiddan â merch y mae'n digwydd ei chyfarfod ar y rhos ger Llanbadarn a hithau'n ei siomi drwy dorri ei haddewid i gadw oed.

Ymhlith y patrymau llenyddol eraill a allasai gynnig ysgogiad i'w awen y mae gwahanol fathau o gerddi ymddiddan a geid yn Lladin yr Oesoedd Canol ac yn yr ieithoedd brodorol. Yn y cywydd 'Merch yn Edliw ei Lyfrdra' (72), ynghlwm wrth sefyllfa ddiriaethol, gellir tybio, ceir thema gyfarwydd y *débats du cleric et du chevalier*. Dyma'r ddadl ai'r gŵr llên ai'r milwr a wna'r carwr gorau, un o'r themâu canoloesol hynny sy'n tarddu, mae'n debyg, o ganu Ofydd.⁵⁴ Gellir darllen ymddiddan Dafydd â'i gysgod cyhuddgar (63) fel parodi ar ymddiddanion y corff a'r enaid,⁵⁵ y *genre* a gymerodd Iolo Goch yn batrwm i'w

⁴⁹ E.e. 'Cystudd y Bardd' (103), un arall o gywyddau Morfudd.

⁵⁰ Trafodir y cerddi hyn gan Dafydd Johnston, 'The Serenade and the Image of the House in the Poems of Dafydd ap Gwilym', CMCS 5 (Haf 1983), 1-19. Am batrymau brodorol a chyfandirol posibl gw. Edwards, DGIA 157-75.

⁵¹ Gw. Edwards, DGIA 279-82.

⁵² Gw. *ib.* 256-7, 271-5.

⁵³ Gw. *ib.* 195-7.

⁵⁴ Gw. *ib.* 269-71; Bromwich, APDG 75; Fulton, DGEC 193-4.

⁵⁵ Gw. Edwards, DGIA 164n, 169; R. M. Jones, 'Ymryson ac Ymddiddan Corff ac Enaid', YB V (1970), 44-61.

gywydd clera⁵⁶ ychydig yn ddiweddarach. Ac er bod y cyferbyniad rhwng eithafion haf a gaeaf yn ganolog i weledigaeth Dafydd, fe all fod yn y cywydd i fis Mai a mis Tachwedd (33) adlais o gonfensiwn yr ymryson rhwng haf a gaeaf a oedd yn gyffredin yn llenyddiaeth y cyfnod.⁵⁷ Wrth iddo gyfoethogi'r traddodiad brodorol â *genres* a chonfensiynau o darddiad estron, fe welir mor greadigol oedd ymateb Dafydd. Ar brydiau ymddengys cwynion y carwr dioddefus yn ddigon di-eironi, ond dro arall, fel y gwelwyd yn 'Dan y Bargod', caiff ei artaith ei hymestyn i eithafion chwerthinlyd. Os oedd gormodiaith y cywydd 'Gwayw Serch' (127) yn anathema i Ruffudd Gryg, felly hefyd, gellir tybio, gywyddau eraill yn yr un cywair fel 'Saethu'r Ferch' (81), 'Dagrau Serch' (89), 'Nodwyddau Serch' (100), a chywydd 'Yr Uchenaid' (101). Hyd yn oed mewn cywyddau llai chwareus na'r rhain nid gwasanaeth diamod mo serch sy'n dwyn lles moesol ac ysbrydol yn ei sgil. Yn wahanol i lenyddiaeth serch cwrtais y Cyfandir hefyd, ni cheir sôn gan Ddafydd am dduw serch na Fenws nac am ddim o'r fytholeg aruchel a dyfodd o'u hamgylch.

Ceir gwahaniaethau go sylfaenol rhwng canu Dafydd a'i gyfoeswyr a'r diwylliant cyfandirol. Mewn *genre* fel y *reverdie*, sy'n cyplysu serch a deffroad y gwanwyn, nid yw'r byd naturiol ond cefnlen gonfensiynol i deimladau'r bardd. Mae hynny'n wir hefyd am y cerddi Ffrangeg alegoriol hynny lle mae adar yn ymddiddan ar bynciau serch.⁵⁸ Mor wahanol yw manylder synhwyrus disgrifiadau Dafydd o'r goedwig, o anifeiliaid fel y llwynog (60) a'r iwrch (46), ac yn enwedig o adar, disgrifiadau y mae a wnelont fwy â phrofiad a sylwgarwch y bardd nag ag unrhyw gonfensiwn llenyddol. Buasai'n gyfarwydd, fodd bynnag, â'r hen ganu englynol sy'n cyfuno doethineb gwirebol â disgrifiadau cryno o fyd natur. Cynrychiolir y canu yng ngramadeg Einion Offeiriad gan y pennill hwn:

Chwerddid mwyalch mywn celli;
Nid ardd, nid erddir iddi;
Nid llawenach neb no hi.⁵⁹

Personolir y fwyalchen yn union fel y mae Dafydd yn cynysgaeddu ei adar yntau â nodweddion dynol, ac mae'r ergyd ddiarhebol yn dwyn i gof ei hoffter o fydryddu diarhebion yn ei gywyddau. Awgryma'r ffaith ei fod yn dyfynnu'r union englyn hwn⁶⁰ nid yn unig ei fod yn gyfarwydd â thestun y gramadeg, ond y gallasai dynnu ar draddodiad poblogaidd o benillion syml o'r fath. Ond beth bynnag a etifeddodd ar lafar neu ar femrwn, ym manwl-gywirdeb ei ddisgrifiadau o'r ehedydd (44) a'r cyfflog (52-3), er enghraifft, neu yn nelweddaeth annisgwyl ei gywyddau i'r wylan (45) ac i'r ceiliog bronfraith (49), aeth Dafydd ymhell y tu hwnt i ddim a fu o'i flaen.

Yn yr un modd yr oedd syniad y tŷ o ddail, fel y gwelwyd, yn bod eisoes yn y Gymraeg, ond fe gydiodd Dafydd ynddo a'i droi'n ddelwedd thematig sy'n

⁵⁶ 'Ymddiddan yr Enaid â'r Corff', GIG XIV.

⁵⁷ Gw. Edwards, DGIA 276-8.

⁵⁸ Cerdd felly yw 'La Messe des Oiseaux' gan y bardd Ffrangeg o'r 14g. Jean de Condé, a gymharwyd â'r cywydd 'Offeren y Llwyn' (39). Gw. Bromwich, APDG 77-8; Edwards, DGIA 233-5.

⁵⁹ GEO Atodiad C, 17.

⁶⁰ Gw. nodyn cefndir rhif 108; Bromwich, 'Gwaith Einion Offeiriad a Barddoniaeth Dafydd ap Gwilym', 160-2.

allweddol i'w weledigaeth. Fel y gwelir orau yng nghywydd 'Y Deildy' (37), llys o wneuthuriad dwyfol yw hwn, llys naturiol a gynlluniwyd gan y Creawdwr ac a blethwyd gan ddwylo Mai. Fel y mae Mai a Duw ei hunan yn rhagorach noddwyr nag unrhyw uchelwr o gig a gwaed, felly hefyd y mae'r deildy'n fwy gwâr a mwy diddan nag unrhyw neuadd o wneuthuriad dyn, ac nid oes amgenach beirdd a cherddorion nag adar y coed. Dihangfa yw'r deildy, symbol o ryddid dros dro nid yn unig rhag golygon y gŵr eiddig, ond rhag holl reolau a siomedigaethau cymdeithas anwadal dyn. Yn rhyddid y llwyn yn nhri mis haf, bron yn ddieithriad, y bydd Dafydd yn chwarae rhan y carwr llwyddiannus. Pan fo'r deildy'n noeth yn oerfel y gaeaf ei gau allan a wna tai o garreg, fel y gwelir mewn cywyddau fel 'Y Rhew' (54), 'Caru yn y Gaeaf' (55), 'Tri Phorthor Eiddig' (68) a 'Dan y Bargod' (98). Ac ymestyn y cyfochredd rhwng coedwig ddelfrydol Dafydd a sefydliadau a chyfundrefnau dynol, mae addoldy'r llwyn yn rhagori hefyd ar unrhyw eglwys blwyf. Yr eos a'r fronfraith sy'n gweinyddu'r offeren yno, ac mae'r sacrament yn wahanol iawn i drefn yr offeiriad y mae Dafydd yn troi clust fyddar iddo yn Eglwys Llanbadarn: 'A chrefydd i'n Dofydd Dad / Â charegl nwyf a chariad' (39.33-4). Os yw'n amheus o gyfrwng dynol annigonol y sefydliad eglwysig, mae'n dirmygu'n llwyr asgetigiaeth lem y Brawd Llwyd sy'n mynnu: 'Nid da'r moliant corfforawl / A ddyco'r enaid i ddiawl' (148.33-4). Felly hefyd rybudd brawd bregethwr arall: 'Nid oes o goed, trioed trwch, / Na dail ond anwadalwch' (147.11-12). Cofleidio'r cread yn ei gyflawnder a wna Dafydd yn ei farddoniaeth, ac mae harddwch darfodedig merch a harddwch natur yn annatod glwm â'i gilydd.

Nid oes yr un o'r cywyddau'n disgrifio'r byd naturiol er ei fwyn ei hun heb berthynas o ryw fath â thema serch. Hyd yn oed yn y cywydd 'Mawl i'r Haf' (35), lle trosir yr haf yn dywysog haelionus sy'n dychwelyd o Annwfn am dri mis bob blwyddyn, mae'n ddealledig bod tymor ffrwythlondeb yn gyfystyr â thymor cariadon. Mae'r briodas hanfodol hon rhwng serch a natur yn greiddiol i ddelwedd y deildy. Os yw'r deildy dan fendith Duw, felly hefyd y cariad 'naturiol', digerydd sy'n ffynnu dan ei gronglwyd. Mae'r briodas yn arbennig o glòs yn nosbarth y cywyddau llatai, lle mae creaduriaid Duw yn cynorthwyo Dafydd ar drywydd serch. Mae'r disgrifiad llachar o wynder yr wylan (45) a anfonir yn negesydd serch at ferch ddienw yn neilltuol o gain a gwreiddiol, ond nid disgrifiad er ei fwyn ei hun ydyw. Awgrymir bod rhinweddau'r wylan – disgleirdeb, purdeb, harddwch dilychwin – yn nodweddu'r ferch yn ogystal, argraff a gryfheir gan y ffaith fod yr aderyn yn ddelwedd adnabyddus am harddwch merch.⁶¹ Yn yr un modd mae'r iwrch, sef math o garw bychan, yn 'hardd farwn hir' (46.16), ac yn symbol addas o foneddigrwydd Dyddgu. 'Cantor o gapel Celi' (44.35) yw'r ehedydd sy'n moli'r Creawdwr wrth ddringo hyd uchelder nef, awgrym o sancteiddrwydd y cread ac o'r fendith ddwyfol ar waith y negesydd. Fel yr ehedydd mae'r gwynt, sy'n 'Rhad Duw ... ar hyd daear' (47.33), yn rhydd o afael Eiddig, ond yn fwy arwyddocaol na hynny mae'r llatai hwn yn ddi-hid o holl ddeddfau a rhwystrau dynion. Yn wahanol i Ddafydd sydd, fe ymddengys, yn gaeth i waharddiad cyfreithiol gan ŵr Morfudd, y Bwa Bach, gall grwydro lle y myn heb ofni cerydd. Un wedd ar ymateb Dafydd i'r byd naturiol yw'r modd y mae'n ei bersonoli'n barhaus. Ceir ymgais i ymuniaethu â'r gwynt drwy ei drosi'n fardd – 'Hyawdr awdl' (47.43) – a 'Drythyllfab' (47.42) sef bachgen nwyfus, diofalon, a cheir afiaith a dychymyg mawr mewn cwpled fel

⁶¹ Ar arwyddocâd llateion Dafydd gw. Johnston, *Llên yr Uchelwyr*, 129-32.

hwn: ‘Hyrddwr, breiniol chwarddwr bryn, / Hwylbrenwyllt heli bronwyn’ (47.45-6). Dyma un o’r cerddi sy’n cyfleu orau ryfeddod Dafydd wyneb yn wyneb â’r byd o’i amgylch. Prin yw’r cynseiliau i’r cywydd llatai mewn llenyddiaeth frodorol ac yn y traddodiad Ewropeaidd ehangach.⁶² Ond fe anfonir adar yn llateion yn y canu rhydd diweddarach, ac os oedd Dafydd yn ddyledus o gwbl i ffrwd islenyddol o ganu poblogaidd, yna fe ddyrchafodd y ddyfais yn *genre* hynod aeddfed ac uchelgeisiol o ran delweddaeth, dyfnder thematig a chreffft.

Yn y cywyddau hynny lle mae Dafydd yn chwarae rhan y carwr aflwyddiannus, gall y byd naturiol fod yn rhwystr hefyd. Aderyn anghynorthwyol yw’r cyffyllog, aderyn y gaeaf sy’n gwrthod mynd yn llatai ar ran y bardd (52) ac yn tarfu ar gariadon (53). Felly hefyd y dylluan ddrwgargoelus (61), a’r biden (36) sy’n edliw i Ddafydd mai amhriodol yn ei oedran ef yw iddo ddal i fynnu aros am ferch yn y llwyn. Gellir dehongli’r biden fel cymar brith i’r Brawd Llwyd a’r Brawd Du, neu fel symbol o gydwybod y bardd sy’n un dehongliad hefyd ar y cywydd i’w gysgod. Tarfu ar Ddafydd wrth iddo ddisgwyl merch a wna’r llwynog (60), ac mae ei ymateb i’r anifail yn gymysgedd o atgasedd a rhyfeddod sy’n nodwedd ar gywyddau’r rhwystrau. Nid creaduriaid yw’r unig rwystr i’w lwyddiant; mae natur ei hun fel pe’n cynllwynio yn ei erbyn yn y cywyddau hyn. Ac yntau ar ei ffordd i gadw oed caiff ei ddallu gan niwl (57), caiff ei faglu gan fiaren sy’n ymgorddedu amdano (56), a chaiff ef a’i geffyl eu llyncu gan bwl mawn mewn bro ddieithr liw nos (59). Nid tywyllwch ond goleuni’r lleuad lawn yw’r felltith yng nghywydd ‘Y Lleuad’ (58), sy’n galluogi Eiddig i’w weld yn ei guddfan goediog yng nghanol nos. Gwahanol iawn yw goleuni bendithiol y seren (50) sy’n un o gynorthwywyr serch. Cannwyll Duw yw’r seren sy’n ei hebrwng at Forfudd, ond i’r gwrthwyneb fe gyplysis y rhwystrau â phwerau tywyll Annwfn, arall fyd yr hen fytholeg Geltaidd.⁶³ Mae ffau’r llwynog o dan y ddaear ac felly’n cyrraedd ‘hyd Annwn’ (60.42), a cheir yr un ddelweddaeth ysgeler yng nghywydd ‘Y Pwll Mawn’. ‘Ennaint gwrachïod Annwn’ (57.44) yw’r niwl, ffrwyth ymyrraeth pwerau’r fall yn y byd hwn. I ddsbarth y rhwystrau hefyd y perthyn y cywyddau hynny lle mae muriau oer o garreg neu farrau ffenest yn atal mynediad i dŷ’r ferch yn nhrymder gaeaf.

Yng nghywyddau’r rhwystrau, fel yn y cywyddau llatai, defnyddir dyfais ‘dyfalu’ i greu argraff weledol ac emosiynol gref o’r gwrthrych dan sylw, drwy osod y naill ddelwedd sydyn ar ben y llall. Dyma ddull o ddisgrifio sy’n nodwedd ar fesur y cywydd, ac a allasai darddu’n wreiddiol o gonfensiwn poblogaidd y pos.⁶⁴ Gwahanol iawn yw’r dyfalu negyddol i’r niwl, er enghraifft, i’r hyn a geir yng nghywydd ‘Yr Wylan’, ond yr un yw gwreiddioldeb y dychymyg. Yr un yw’r cymhlethdod hefyd: o dan ddoniolwch sylfaenol persona’r carwr truenus a gormodiaith anghymesur y felltith, ymglywir yn y cerddi hyn â rhwystredigaeth ddyfnach un sy’n gyfarwydd â dadrithiad. Caiff yr un rhwystredigaeth ei dramateiddio ymhellach mewn cywyddau storïol digrif fel ‘Y Cwt Gwyddau’ (67), ‘Tri Phorthor Eiddig’ (68), ‘Trafferth mewn Tafarn’ (73) a ‘Sarhau ei Was’ (74). Cerddi yw’r rhain sydd yn yr un ysbryd â’r *fabliaux* Ewropeaidd ac eto’n sylfaenol wahanol, nid yn unig am fod y traethiad yn y person cyntaf ond oherwydd mai methiant alaethus yw ymdrechion y carwr i ennill y ferch.

⁶² Gw. Edwards, DGIA 125-38.

⁶³ Gw. Eurys I. Rowlands, ‘Cyfeiriadau Dafydd ap Gwilym at Annwn’, LIC 5 (1959), 122-35.

⁶⁴ Gw. Edwards, DGIA 138-52; Johnston, *Llên yr Uchelwyr*, 123-4.

'Trafferth mewn Tafarn' yw campwaith y cywyddau naratif. Ar yr wyneb mae'r hiwmor yn slapstic pur, ond â'i defnydd cyfrwys o fwyseiriau ac o sangiadau herciog sy'n adlewyrchu hynt afrosgo Dafydd drwy dywyllwch y llety, yn ogystal â'r modd y personolir gwrthrychau fel y stôl a'r badell efydd fel petaent yn cynllwynio yn ei erbyn, mae'r gerdd mewn gwirionedd yn gomedi eithriadol o soffistigedig. Gan mai dychanu, a'i dafod yn ei foch, ei falchder ei hun a wna Dafydd, gellir darllen y cywydd fel parodi eironig o'r math o foeswers enghreifftiol a oedd yn gyffredin ym mhregethau'r cyfnod. Balchder a thrachwant yw pechodau'r 'mab llwyd wyneb mursen' (137.29) yn 'Merched Llanbadarn' hefyd, cywydd eironig arall lle mae Dafydd yn ei osod ei hun yn destun gwawd gerbron ei gynulleidfa.

Mae ymdriniaeth Dafydd â thema serch yn dra amrywiol, a cheir nifer fawr o gywyddau nad oes modd eu gosod mewn categorïau amlwg fel y cywyddau llatai, cywyddau'r rhwystrau a'r cywyddau storiol. Blas siarad sydd ar lawer o'r cerddi hyn, lle mae Dafydd, pa un a yw'n cyfarch y ferch yn uniongyrchol ai peidio, yn amau ei ffyddlondeb neu'n dannod iddi ei difaterwch a'i horiogrwydd, neu, yn yr eithaf arall, yn gorfoleddu yn angerdd eu perthynas. Ceir chwerwder a dadrithiad dwfn yn rhai o'r cerddi hyn, fel yn y cywydd 'Siom' (107) sy'n edliw i Forfudd iddi fynd yn feichiog dan ŵr arall er gwaethaf cariad Dafydd tuag ati a'r holl gerddi a ganodd er ei mwyn. Cwbl wahanol yw cywair herfeiddiol y cywydd 'Ddoe', sy'n cyrraedd uchafbwynt â'r ebychiad buddugoliaethus: 'Aha! wraig y Bwa Bach!' (110.40). Er mor boenus fu clwyfau'r gorffennol rhoes Morfudd achos iddo obeithio drachefn. Ategir ei ddyfalbarhad a'i hyder newydd gan dair delwedd nodweddiadol o wreiddiol: mae'n wydn fel gwialen nad oes torri arni pa faint bynnag y'i plygir; mae ynddo enaid hen gath anwydog sy'n goroesi pob curfa; a thrwy gamu'n araf lle brysia eraill, ef sy'n dwyn y gamp. Mae'r dull yma o ddiriaethu syniad â thair delwedd gysylltiol yn nodwedd drawiadol ar arddull Dafydd.⁶⁵ Dro arall myfyria ar arwyddocâd un ddelwedd gyfoethog gan ddatblygu ei photensial dros gywydd cyfan. Techneg yw hon sy'n sylfaenol wahanol i ddyfais dyfalu. Mae 'Morfudd fel yr Haul', fel y gwelwyd, yn gyflead dyfeisgar o anwadalwch Morfudd sy'n machlud bob nos 'Dan orddrws y dyn oerddrwg' (111.50), yn ogystal â'i thanbeidrwydd a'i harddwch. Ac fe allai'r storm o ochneidiau a dagrau sy'n difetha'r cnwd yn 'Hwsmonaeth Cariad' (109), un arall o gywyddau Morfudd, ddynodi ei phriodas â'r Bwa Bach.

Wrth ddarllen cerddi fel y rhain ceir ymdeimlad cryf fod cywyddau Morfudd yn seiliedig ar garwriaeth dymhestlog a gychwynnodd cyn ei phriodas â'r Bwa Bach ac a barhaodd am flynyddoedd wedi hynny. Er bod angen dal mewn cof gyd-destun perfformiadol y farddoniaeth a'r amryfal gonfensiynau sy'n perthyn iddi, ac er mor beryglus yw ceisio olrhain trywydd y berthynas ar sail y creadigaethau llenyddol hyn, rhaid cydnabod bod blas profiad ar yr holl ystod o emosiynau a ysgogir gan Forfudd.⁶⁶ Fe'i henwir mewn rhagor na deg ar hugain o gerddi, ac mae'n fwy na thebyg mai hi a symbylodd amryw o'r cywyddau lle na nodir enw'r ferch. Yn ôl un amcangyfrif fe allai fod yn wrthrych cynifer â naw deg o gerddi i

⁶⁵ Gw. R. Geraint Gruffydd, 'Cywyddau Triawdaidd Dafydd ap Gwilym: Rhai Sylwadau', YB XIII (1985), 167-77.

⁶⁶ Gw. *id.*, 'Dafydd ap Gwilym: Trem ar ei Yrfa', *Taliesin* 71 (1990), 25-40; *id.*, 'Dafydd ap Gwilym: An Outline Biography', yn Cyril J. Byrne, Margaret Harry a Pdraig O'Siadhail (gol.), *Celtic Languages and Celtic Peoples: Proceedings of the Second North American Congress of Celtic Studies* (Halifax, 1992), 425-42.

gyd.⁶⁷ Yn y cywydd ‘Nodwyddau Serch’ (100) caiff cariad Morfudd ei ddelweddu fel mab maeth a fu’n destun blinder i Ddafydd am naw mlynedd. Hawdd credu mai hithau hefyd yw’r ferch ddiennw yng nghywydd ‘Y Mab Maeth’ (77), lle mae’r un trosiad yn cynnal y cywydd ar ei hyd. Mae’r mab aflonydd a thrafferthus yn annwyl ac eto’n atgas ganddo, ac er ei holl ofal amdano ni chafodd ddim tâl am ei fagu. Yr un ddeuliaeth gymhleth a awgrymir gan ddelwedd estynedig ‘Serch fel Ysgyfarnog’ (75), enghraifft o drosiad yr helfa sy’n digwydd droeon gan Ddafydd. Mewn cywair tawelach, dichon mai Morfudd hefyd a ysbrydolodd ddedwyddwch ‘Y Serch Lladrad’ (133), cywydd sy’n ddatliad o serch cyfrinachol mewn cytgordd â natur er gwaetha’r tafodau maleisus. Anaml ym mhrofiad Dafydd y mae serch mor anghymhleth â hyn. Caiff y gwahaniaeth rhwng Morfudd benfelen, briod, nwydus ond anwadal ar y naill law, a Dyddgu bryd tywyll, fonheddig ar y llall ei grisialu yn y cywydd ‘Dyddgu a Morfudd’ (92). Merch ‘gywir’, ‘ddiderfysg’ a ‘dianwadal’ yw Dyddgu, ond oherwydd ei thras mae y tu hwnt i gyrraedd ei bardd. Yn y chwe chywydd a ganwyd iddi hi’n benodol (86-91) rhoddir cryn sylw i’w bonedd fel merch uchelwr, ac at ei gilydd mae naws y cerddi yn fwy llednais na chywyddau Morfudd. Er bod Dafydd yn ymagweddu fel carwr dioddefus mewn cerddi fel ‘Dagrau Serch’ (89) ac ‘Achau Hiraeth’ (90), nid oes yma ddim o angerdd mwy amrwd y berthynas â Morfudd. Fe welwyd mai i uchelwraig hefyd, sef Angharad o Lyn Aeron, y canwyd y cywydd ‘Caer Rhag Cenfigen’ (122), sy’n ddehongliad gwreiddiol a choeth o un o ddelweddau alegoriol y traddodiad serch cwrtais.

Y tu hwnt i draddodiad a chonfensiwn, yr hyn sydd i gyfrif am fawredd Dafydd ap Gwilym yw ei greadigrwydd anghyffredin, ei bersonoliaeth farddol gref, ynghyd â’r weledigaeth gymhleth sy’n hydreiddio’r farddoniaeth. Yn greiddiol i’r weledigaeth honno y mae ymwybod byw â breuder popeth. Yn nosbarthiad thematig y golygiad hwn yr unig gerdd a osodir dan y pennawd ‘Treigl amser’ yw cywydd ‘Yr Adfail’ (151). Yr hen gartref adfeiliedig, a’r gwrthgyferbyniad ingol rhwng dimdra heddiw a llawnder ddoe, yw symbol mwyaf pwerus Dafydd o ormes amser, ond mae’r thema yn islais drwy lawer iawn o’i ganu. Atgof breuddwydiol bellach yw’r caru cynnes gynt yng nghongl y tŷ, ac felly hefyd brydferthwch Morfudd yn y cywydd ‘Morfudd yn Hen’ – ‘Breuddwyd yw; ebrwydded oes!’ (150.36). Gellir mentro mai’r hyn sy’n hogi ymateb Dafydd i’w fyd yw’r hydeimledd yma i fyrhoedledd pob harddwch a phob mwyniant daearol, yr ymwybyddiaeth ‘fyrred yr haf’ (34.2). Dyna gyfrinach ei angerdd a miniogrwydd synhwyrus ei ddelweddau. A dyna ran o’r esboniad am y ddeuliaeth y sylwyd arni droeon yn ei ganu serch: y pendilio mynych rhwng gorfoledd a siom, rhwng egni’r haf a marweidd-dra’r gaeaf, rhwng hiwmor a dwyster, a’r ffin rhwng y naill a’r llall yn fregus o denau. Yn wahanol i’w gydgywyddwyr Gruffudd Gryg, Llywelyn Goch ap Meurig Hen ac Iolo Goch, mae’n annhebyg y bu iddo fwynhau gyrfa hir. Ond cymaint oedd poblogrwydd ei ganu fel y diogelwyd cyfran fwy sylweddol o lawer o’i gerddi ef na’r un o’i gyfoeswyr. Saif y farddoniaeth fel un o uchafbwyntiau llenyddiaeth Ewrop yn yr Oesoedd Canol.

⁶⁷ *Id.*, *Dafydd ap Gwilym* (Cyfres Llên y Llenor, Caernarfon, 1987), 36-7.



©Huw Meirion Edwards 2010